

Arolygiad o Wasanaethau Plant Dinas a Sir Cyngor Abertawe

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Trosolwg	5
Meysydd i'w Datblygu	7
Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	9
Asesu	11
Gofal a Chymorth a Chynllunio Llwybrau	13
Diogelu	18
Arwain, rheoli a llywodraethu	21
Methodoleg	24
Diolchiadau	24

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant yn Ninas a Sir Abertawe yn ystod mis Gorffennaf 2018.

Roedd ein harolygiad yn seiliedig ar yr wyth datganiad llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru *Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* (Mawrth 2016). Mae ein dull arolygu yn adeiladu ar y safonau ansawdd cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol a nodir yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol* a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ogystal, yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd gallu'r awdurdod lleol i wella drwy ddadansoddi'r modd y caiff ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eu harwain a'u llywodraethu.

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i helpu ac amddiffyn plant a'u teuluoedd. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- profiad a chynnydd plant ar ymylon gofal, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal gan gynnwys ansawdd ac effaith gwasanaethau atal, effeithiolrwydd prosesau gwneud penderfyniadau, gofal a chymorth a chynllunio llwybrau
- y trefniadau i sicrhau sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n dychwelyd adref gan gynnwys defnyddio gwasanaethau maethu, gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r awdurdod lleol
- cydymffurfiaeth â rheoliadau gwasanaethau maethu a'r safonau gofynnol cenedlaethol
- ansawdd y trefniadau arwain, rhianta corfforaethol a llywodraethu sydd ar waith i bennu, datblygu a chefnogi gwasanaethau digonol a'u darparu yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'u teuluoedd.

Er bod yr arolygiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynnydd a phrofiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r broses y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn ei dilyn wrth droi'n oedolion, roedd yr arolygiad wedi canolbwyntio ar ymgysylltiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd â'r canlynol:

- Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor neu gymorth (IAA), gwasanaethau ataliol;
- asesu/ailasesu anghenion gofal a chymorth a gwaith cynllunio gofal a chymorth;
- ymholiadau amddiffyn plant, gweithdrefnau, camau amddiffyn brys a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.

Roedd yr arolygwyr wedi darllen ffeiliau achos, cyfweld â staff a chynnal arolwg staff, cyfweld â rheolwyr a chyfweld â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Siaradodd yr arolygwyr â phlant a'u teuluoedd lle bo

hynny'n bosibl. Roedd pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal wedi mynychu dau grŵp ffocws.

Trosolwg o'n Canfyddiadau

- Yn gyffredinol, gwelsom arfer o ansawdd da yng ngwasanaethau plant Cyngor Abertawe, gyda chanlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni ar gyfer llawer o blant a phobl ifanc.
- Roedd gweledigaeth yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn gadarn, o dan berchenogaeth gorfforaethol a'r awdurdod cyfan wedi buddsoddi ynddi. Roedd aelodau etholedig yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant ac roedd ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl.
- Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau ail-lunio ei wasanaethau yn unol â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Fodd bynnag, mae angen datblygiad pellach ar feysydd ymarfer o bwys, yn enwedig ymgorffori'r sgwrs ynghylch beth sy'n bwysig a sicrhau bod llais y plentyn / person ifanc yn cael ei gofnodi'n glir.
- Mae'r awdurdod lleol yn sensitif i'r angen i adolygu'r dull mwyaf effeithiol o ddarparu gwasanaethau plant, a nod yr ailstrwythuro a roddwyd ar waith yn ddiweddar yw gwella ansawdd yr ymarfer a gwella'r cymorth i staff.
- Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol wrth nodi meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach ac mae'n defnyddio amrywiaeth o opsiynau ar gyfer llywio gwelliant.
- Arweinir gwasanaethau plant yn effeithiol ac yn hyderus gan Bennaeth Gwasanaethau a thîm rheoli profiadol a reolodd y newid yn dda. Roedd y staff yn ymroddedig ac yn gydnerth, roeddent yn gwerthfawrogi'r diwylliant o gymorth tîm yr oeddent yn gweithio ynddo, a hygyrchedd eu rheolwyr.
- Canfu ein hadolygiad o sampl o ffeiliau goruchwyllo eu bod yn adlewyrchu ymarfer goruchwyllo da; fodd bynnag, roedd ansawdd y cofnodion ac amseroldeb y sesiynau goruchwyllo yn anghyson.
- Roedd gwaith partneriaeth yn yr awdurdod a gyda'i asiantaethau allanol yn effeithiol ar y cyfan, yn enwedig o ran diogelu. Fodd bynnag, clywsom gan staff y gallai cydberthnasau gwaith rhwng gwasanaethau plant ac addysg gael eu hatgyfnerthu a gwelsom dystiolaeth nad oedd rhai plant/pobl ifanc yn cael addysg ddigonol a'u bod yn cael deilliannau gwael.

- Defnyddiwyd prosesau asesu a chynllunio gofal cadarn fel sail ar gyfer nodi angen, a chynlluniwyd a chyflawnwyd y cymorth angenrheidiol i sicrhau deilliannau unigol cytûn. Unwaith eto, nid oedd y sgwrs ynghylch beth sy'n bwysig na llais y plentyn bob amser yn amlwg mewn cofnodion asesu a chynllunio; roedd angen gwneud gwelliannau hefyd o ran cofnodi cryfderau a deilliannau personol.
- Yn sail i ymarfer diogelu gwasanaethau plant Cyngor Abertawe roedd y model Arwyddion Diogelwch - Signs of Safety (SOS). Gwelodd yr arolygwyr fod hyn yn sefydledig iawn, a gwelsom dystiolaeth o deuluoedd yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd a roddwyd iddynt ddod yn rhan weithredol o lunio a gweithredu cynlluniau diogelwch.
- Roedd gwasanaethau plant Cyngor Abertawe yn ymwybodol bod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu gweld o fewn yr amserlenni gofynnol er mwyn sicrhau eu diogelwch a gwella deilliannau unigol.
- Cydnabu'r awdurdod lleol nad oedd buddiannau posibl y trefniadau sicrwydd ansawdd presennol wedi cael eu gwireddu yn ymarferol. Roedd canolfan berfformio newydd wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar ynghyd â thimau ailstrwythuro fel ffordd o atgyfnerthu sicrwydd ansawdd a throsolwg rheolwyr.
- Parhaodd y dewis o ran lleoliadau i greu heriau parhaus, yn enwedig i blant / pobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth.
- Roedd y plant a'r bobl ifanc, y clywsom ganddynt, yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau a oedd yn cael eu meithrin â gweithwyr cymdeithasol unigol.

Meysydd i'w Datblygu

Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)

1. Mae angen i ofynion y Ddeddf gael eu hymgorffori'n llawn yn IAA, gyda ffocws arbennig ar y sgwrs ynghylch beth sy'n bwysig a llais y plentyn.
2. Mae angen gwella trefniadau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn perthynas at atgyfeiriadau yn ystyried pob darn perthnasol o wybodaeth.

Asesu

3. Mae angen gwella ansawdd yr asesiadau er mwyn sicrhau llai o ddyblygu, a ffocws cynyddol ar lais y plentyn, cryfderau a deilliannau.

Gofal a Chymorth a Chynllunio Llwybrau

4. Mae angen atgyfnerthu cynllunio gofal drwy ymestyn y gwaith o gyd-lunio cynlluniau, a sicrhau bod llais y plentyn yn amlwg drwyddi draw, yn unol â gofynion y Ddeddf.
5. Dylai'r awdurdod fodloni ei hun bod pob plentyn y nodir bod angen gofal a chymorth arno ac sy'n cael addysg heblaw am addysg yn yr ysgol (EOTAS) yn cael y mewnbwn a'r cymorth addysgol y mae ganddynt hawl iddynt.
6. Roedd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar eu cynllun gofal eu hunain, eu hadolygiadau a dogfennau eraill yn aneglur; dylid adolygu'r rhain a gwella'r systemau sydd ar waith ar gyfer cofnodi hyn.

Diogelu

7. Gwella'r modd y dadansoddir risgiau a nodir, rhwystrau a chryfderau ac anghenion unigol, er mwyn atgyfnerthu effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau a'r trefniadau diogelu.
8. Gwella'r modd y sicheir ansawdd arferion amddiffyn plant.

Arwain, Rheoli a Llywodraethu

9. Sicrhau bod fframwaith sicrwydd ansawdd cadarn wedi ei sefydlu yn yr adran.
10. Mae angen rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r meysydd hynny a nodwyd eisoes gan yr awdurdod lleol fel rhai lle ceir tanberfformio; er enghraifft, mewn perthynas â fformat cynlluniau gofal a chymorth; cofnodi ymweliadau statudol; amseroldeb yr adroddiadau

adolygu a chynadleddau; derbyn y cynnig rhagweithiol mewn perthynas ag eiriolaeth a threfniadau goruchwyllo staff.

Camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i Ddinas a Sir Abertawe ystyried y meysydd a nodwyd fel rhai i'w datblygu a chymryd camau priodol. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

1. Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, diweddarau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwybodaeth, cymorth a chyngor sydd ar gael yn eu hardal yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Gall pawb, gan gynnwys gofalwyr, gael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a chael cyngor a chymorth yn gyflym, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r ymateb y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae trefniadau effeithiol ar waith i oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o bwyntiau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n hawdd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae trefniadau cyfeirio effeithiol yn rhoi dewis i bobl o ran y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall y trefniadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

Crynodeb o ganfyddiadau

- 1.1. Mae'r awdurdod lleol wedi ail-lunio ei wasanaethau er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Roedd cynnydd wedi bod yn y galw am wasanaethau plant dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd yr angen i weithio'n fwy effeithiol gydag asiantaethau partner er mwyn ymateb yn gadarnhaol wedi cael ei gydnabod a gweithredwyd ar hyn. Mae lansio'r canllaw *Pathway to Provision* amlasiantaethol wedi gwella eglurder ynghylch trothwyon a llwybrau ar gyfer asiantaethau partner.
- 1.2. Roedd y tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, a olygai fod pob atgyfeiriad yn cael ei ystyried gan weithiwr proffesiynol cymwys. Gwelsom dystiolaeth o rai penderfyniadau atgyfeirio yn cael eu gwneud heb ystyried y cefndir na gwybodaeth berthnasol arall yn llawn.
- 1.3. Gwelsom asiantaethau eraill a ddefnyddiwyd hefyd yn uniongyrchol drwy'r pwynt cyswllt cyntaf, gan gynnwys swydd cydlynnydd arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMH). Clywsom am y ffordd roedd cyswllt yn mynegi pryder ynghylch ymddygiad plentyn wedi cael ymateb priodol, a bod y gweithiwr iechyd meddwl sylfaenol wedi rhoi cymorth amserol i'r plentyn yn yr ysgol, gan arwain at ddeilliannau unigol cadarnhaol.
- 1.4. Fel rhan o agenda Tlodi ac Atal ehangach yr awdurdod lleol, mae gwasanaeth y Tîm o Amgylch y Teulu wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ysgolion ledled Abertawe, ac mae'n gweithio'n dda ym marn asiantaethau partner. Mae'r cynlluniau y clywsom amdanynt i ddatblygu dull 'Arwyddion Llesiant' ar y pwynt

cyswllt cyntaf ymhellach yn debygol o atgyfnerthu gwasanaethau ymyrryd ac atal cynnar yr awdurdod lleol.

- 1.5. Gwelsom fod angen gwneud mwy o waith i ymgorffori'r dull gweithredu 'beth sy'n bwysig' a chydabod ac adeiladu ar gryfderau rhwydwaith y plentyn a'r teulu. Adlewyrchwyd y dull gweithredu hwn yn amlach mewn trafodaethau a gynhaliwyd gyda staff nag yn y dogfennau a welwyd, nad oedd eu fformat bob amser yn helpu staff i hwyluso hyn.
- 1.6. Mae amrywiaeth dda o wasanaethau yn y gymuned i gefnogi teuluoedd, ac roedd y rhyngwyneb 'cam-i-lawr' â phartneriaid yn gweithio'n dda. Yn ystod ymweliad â'r Ganolfan Cam-drin Domestig, gwelsom fod y gwasanaeth amlasiantaeth hwn yn cefnogi plant a'u teuluoedd yn effeithiol drwy ymyriadau grŵp un i un. Sefydlwyd y dull gweithredu hwn o ganlyniad i adolygiad a gomisiynwyd yn flaenorol, ac mae'n dangos dull rhagweithiol Cyngor Abertawe o wella'r gwasanaethau amrywiol a ddarperir.
- 1.7. Ar ôl cydnabod yr angen i wella'n sylweddol y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar gymorth, aeth yr awdurdod ati i gynnal adolygiad 'Meddwl trwy Systemau' o'i drefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth presennol, gyda'r nod o lansio dull gweithredu amlasiantaethol mwy integredig. Adlewyrchwyd y diffygion a nodwyd yn flaenorol gan yr awdurdod mewn rhai amgylchiadau unigol y gwnaethom edrych arnynt, megis atgyfeiriadau lluosog dros gyfnod byr o amser, neu adegau pan oedd plant a theuluoedd wedi gorfod cymryd cam i lawr a chael cymorth llai dwys yn rhy fuan. Roedd hyn yn golygu y gallai gwasanaethau plant a'u teuluoedd fod yn cael eu dileu yn rhy gynnar, neu nad oeddent yn cael y mewnbwn na'r cymorth mor gyflym ag y dylent fod wedi eu cael.
- 1.8. Mae angen canmol yr awdurdod lleol am nodi ac ymateb yn gadarnhaol i'r diffygion hyn, a rhoi adolygiad cynhwysfawr ar waith wedi ei anelu at fynd i'r afael â gwendidau. Bydd AGC yn monitro effaith y dull gweithredu newydd hwn, gan ddilyn y gwaith treialu a'r broses ddilynol o'i roi ar waith.
- 1.9. Mae'r angen i fodloni gofynion y 'cynnig rhagweithiol' o ran y Gymraeg wedi cael ei gydnabod. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cefnogi ystod o boblogaethau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a gall alw ar gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i helpu gyda hyn. Gwelsom rai achosion lle roedd diffyg gwasanaeth cyfieithwyr ar y pryd priodol wedi oedi'r broses ymateb ac wedi effeithio ar ansawdd yr ymyrraeth.

2. Asesu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pawb sydd â'r hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn cael asesiad yn eu hiaith ddewisol. Mae pob gofalwr sy'n ymddangos fel pe bai ganddo anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad o anghenion, ni waeth pa fath o ofal a ddarperir, ei sefyllfa ariannol na'r lefel o gymorth a all fod ei hangen. Caiff anghenion pobl eu hasesu'n amserol sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewsiadau. Mae asesiadau'n ystyried canlyniadau personol a barn, dymuniadau a theimladau'r person sy'n cael ei asesu a phobl eraill berthnasol, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni. Gwneir hyn i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol ac yn hybu eu llesiant a'u diogelwch eu hunain a llesiant a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau'n rhoi dealltwriaeth glir o'r hyn fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i'r anghenion a nodir. Caiff camau gweithredu a argymhellir, a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, eu nodi ac maent yn cynnwys yr holl gamau a all gael eu cymryd drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol.

Crynodeb o ganfyddiadau

- 2.1. Gwelsom fod trefniadau da ar waith i gefnogi asesiadau, ac o ganlyniad roedd y rhain yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth briodol. Ar y cyfan, roedd yr ymateb i'r atgyfeiriad neu'r cais am asesiad yn brydlon ac yn effeithlon, ac roedd asesiadau'n cael eu cwblhau mewn ffordd amserol.
- 2.2. Roedd dull gweithredu Cyngor Abertawe o ran Arwyddion Diogelwch (SOS), a oedd yn sail i'w asesiadau yn ogystal â'i gynlluniau diogelu a gofal, yn darparu fframwaith manwl yr oedd y staff yn ei ddeall yn dda, ac a oedd yn blaenoriaethu risg yn glir. Fodd bynnag, nododd arolygwyr yr angen i wella ansawdd y dadansoddi mewn rhai cofnodion drwy nodi risgiau a rhwystrau yn gywir, ynghyd ag anghenion a chryfderau unigolion a'u teuluoedd.
- 2.3. Gwelsom fod llawer o asesiadau manwl yn darparu sail gadarn ar gyfer dadansoddi llawer o'r materion a oedd yn effeithio ar blant a'u teuluoedd ac roedd y defnydd o ddull mapio achosion yn cael effaith dda. Mewn rhai achosion, nid oedd y sail y seiliwyd penderfyniadau yn ymwneud â deilliannau unigol arni wedi cael ei hegluro bob amser yn y dogfennau a welwyd.
- 2.4. Er bod ffocws ar risg o'r cychwyn yn briodol, gwelsom weithiau fod gorbwyslais ar yr agwedd hon, ac o ganlyniad ni roddwyd digon o gydnabyddiaeth i gryfderau a nodwyd. Tanseiliodd hyn y dull gweithredu ar sail cryfderau a oedd yn cael ei ddefnyddio gyda phlant a theuluoedd. Mae'r fframwaith 'arwyddion llesiant' a dreialwyd yn ddiweddar yn creu'r potensial am ddull gweithredu mwy hyblyg, lle nad yw angen plant a theuluoedd a aseswyd yn cynnwys elfennau diogelu.

- 2.5. Roedd y plant yn cael eu hasesu gan weithwyr cymwys, a gwelwyd y plentyn ar ei ben ei hun fel rhan o'r broses hon, lle y bo'n briodol.
- 2.6. Dyblygwyd gwybodaeth asesu mewn nifer o agweddau ar daith y plentyn drwy'r gwasanaethau plant, a oedd yn rhwystro proses gwneud penderfyniadau effeithiol. Nododd yr awdurdod lleol fod hyn, ynghyd â chymesuredd rhai asesiadau, yn faterion yr oedd yn ymwybodol ohonynt ac yn bwriadu mynd i'r afael â nhw.
- 2.7. Cadarnhaodd ein sgysiau â gweithwyr cymdeithasol am unigolion roeddent yn gweithio gyda nhw mai budd gorau'r plant a'r bobl ifanc oedd bwysicaf iddynt, a bod gwrando ar eu 'llais' yn elfen bwysig o'r broses asesu. Fodd bynnag, yn unol â'n canfyddiadau mewn perthynas â'r sgwrs 'beth sy'n bwysig', ni chafodd hyn ei nodi'n gyson yn y dogfennau a welsom. Mae angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r agweddau hyn.

3. Gofal a Chymorth a Chynllunio Llwybrau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn cael gofal, cefnogaeth, help a diogelwch amlasiantaethol amserol ac effeithiol lle bo hynny'n briodol. Caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, eu dewis a'u llesiant, yn helpu i'w cadw'n ddiogel ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Caiff pobl eu helpu i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol.

Crynodeb o ganfyddiadau

- 3.1. Ar ôl cyfnod lle gwelwyd lleihad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn unol ag amcanion ei strategaeth lleihau yn ddiogel, bu cynnydd cyffredinol yn ystod 2017/18. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ddeall a dadansoddi'r rhesymau dros y tueddiadau diweddar hyn, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio polisi ac arfer yn y dyfodol.
- 3.2. Ategir y gwaith o gynllunio gofal a chymorth gan y fframwaith Arwyddion Diogelwch. Gwelsom fod gweithwyr cymdeithasol yn hyderus wrth roi'r model hwn ar waith, a oedd yn cynnig methodoleg gadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, o fewn strwythur cyson a ddeallir yn dda. Roedd llawer o'r cynlluniau gofal a chymorth a'r cynlluniau llwybrau a welsom yn fanwl ac o ansawdd da, ac mewn llawer o achosion roeddent yn adlewyrchu'r gwaith uniongyrchol a oedd yn cael ei wneud gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gwelsom y gallai rhannu'r gwaith uniongyrchol yr oedd gweithwyr cymdeithasol wedi ei wneud gyda phlant unigol, er enghraifft drwy 'eiriau a darluniau' gael effaith bwerus pan oedd aelodau estynedig o'r teulu yn rhan o'r broses hon. Roedd mapio a graddio, o'u defnyddio'n effeithiol gyda phlant a theuluoedd, yn ddefnyddiol wrth gytuno ar gamau nesaf gyda theuluoedd a rhwydweithiau diogelwch ehangach.
- 3.3. Fel gydag asesiadau, un o ddiffygion cyson y cynlluniau gofal a chymorth oedd nad oeddent yn ymgorffori disgwyliadau'r Ddeddf yn llawn ac nad oeddent yn cynnwys y sgwrs 'beth sy'n bwysig' nac yn adlewyrchu llais y plentyn / person ifanc yn llawn. Er i ni weld a chlywed am enghreifftiau lle roedd hyn wedi digwydd, eithriadau i'r arfer oeddent. Nid oedd y dogfennau a oedd yn cael eu defnyddio i gofnodi cynlluniau yn helpu gweithwyr cymdeithasol i hwyluso'r dull gweithredu hwn.
- 3.4. Dywedodd staff wrthym y gallai fod yn anodd gwe-lywio system cronfa ddata PARIS a ddefnyddir i gynhyrchu a chofnodi gwybodaeth, yn enwedig o ran lleoli rhai dogfennau unigol. Gwelsom enghreifftiau hefyd lle roedd grwpiau o frodyr a chwiorydd wedi cael eu cofnodi ar un cynllun, yn hytrach nag ar rai unigol. Deëllir bod yr awdurdod lleol yn bwriadu treialu fformatau newydd ar gyfer y cynllun gofal a chymorth,

fel ffordd o fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'n bwysig bod gan blant a theuluoedd gopi o'u cynllun gofal a chymorth ond nid oedd yn glir a oedd hyn yn digwydd fel mater o drefn.

- 3.5. Clywsom am enghreifftiau o waith a wnaed gan y Tîm Cymorth i Deuluoedd (roedd hyn yn cynnwys y Tîm Cyswllt dan Oruchwyliaeth, y Tîm Cymorth yn y Cartref Hyblyg, a'r Timau Ymyriadau Teuluol) gyda theuluoedd lle roedd y plant yn wynebu risg o gael eu lletya. Drwy weithredu rhaglenni dwys, uniongyrchol dros gyfnod byr o amser, cefnogwyd teuluoedd i fod yn gyfrifol am ddeilliannau cytûn a chafodd cynnydd ei fonitro a'i adolygu'n agos. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei ailstrwythuro yn ddiweddar, a'i gynllunio i symud i ganolfan deuluol newydd a hygyrch, a oedd wrthi'n cael ei hailfodelu at y diben hwn.
- 3.6. Clywsom gan asiantaethau eraill fod gwaith partneriaeth yn effeithiol ar y cyfan, bod rhai plant a phobl ifanc yn cael deilliannau addysgol da ac nad oedd unrhyw blentyn a oedd yn derbyn gofal wedi cael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol. I'r gwrthwyneb, roedd nifer o blant y nodwyd eu bod yn cael eu haddysgu yn rhywle arall heblaw'r ysgol (EOTAS), yn aml am nad oedd eu lleoliad mewn uned atgyfeirio disgyblion (PRU) wedi llwyddo. Roedd gennym bryderon am y ffaith bod gan rai o'r plant hyn amserlenni byrrach, a'u bod ond yn cael pum awr yr wythnos o wersi yn y cartref, mewn rhai achosion dros gyfnod estynedig. Roedd y mater hwn eisoes wedi cael ei godi gan Swyddogion Adolygu Annibynnol ac yn cael ei fonitro gan y pwyllgor craffu.
- 3.7. Er bod y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus bod ymweliadau statudol â phlant a oedd yn derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â gofynion, nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu bob amser yn y dogfennau a adolygwyd. Unwaith eto, roedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o hyn, a dylai sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddatrys hyn.

Y rhai sy'n gadael gofal

- 3.8. Darperir gwasanaethau statudol i bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed gan dîm Bays Plus, a darperir gwasanaethau i'r rhai dros 18 oed ar y cyd gan sefydliad trydydd sector, a oedd yn cyflogi cynghorwyr personol i gefnogi pobl ifanc. Yn ystod ymweliad â'r gwasanaeth hwn, gwelsom fod y timau hyn wedi'u cyd-leoli ond yn cael eu gweithredu a'u rheoli ar wahân. Cynlluniwyd yr amgylchedd er mwyn iddo ganolbwyntio ar y person ifanc, heb greu stigma, er mwyn hyrwyddo ethos 'galw heibio'. Roedd pwyslais cryf ar gyflawni deilliannau cadarnhaol, gyda gallu parod i gael gafael ar ystod o wasanaethau cynghori priodol, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau a chyngor ar iechyd rhywiol. Roedd y bobl ifanc hefyd yn gallu manteisio ar wasanaeth 'Skills for Living' a oedd yn gwneud gwaith therapiwtig yn uniongyrchol gyda nhw.

- 3.9. Neilltuwyd cynghorydd personol i bob person ifanc oedd â hawl i gael un. Clywsom adborth cadarnhaol gan bobl ifanc am y modd roeddent yn gwerthfawrogi cyfraniad eu cynghorydd personol, yn enwedig wrth eu helpu i gael gafael ar fudd-daliadau a gweithgareddau cymdeithasol neu ymgysylltu â'r gymuned. Roedd hyblygrwydd o ran trefniadau trosglwyddo rhwng gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol mewn ymateb i anghenion / amgylchiadau unigol. Gwelsom dystiolaeth o barhad o ran y gydberthynas â'r cynghorydd personol, ac un enghraifft o hyn oedd bod un person ifanc wedi cael yr un cynghorydd personol ers nifer o flynyddoedd.
- 3.10. Roedd yr awdurdod yn croesawu'r cynllun Pan Fydda l'n Barod oedd wedi ei anelu at gefnogi pobl ifanc mewn lleoliadau maeth ar ôl 18 oed, a chlywsom am enghreifftiau lle mae hyn wedi cael ei roi ar waith mewn modd hyblyg, er budd gorau pobl ifanc.
- 3.11. Lleolwyd gweithiwr arbenigol ym maes llety â chymorth yn y tîm Bays Plus, a chlywsom fod opsiynau tai amrywiol yn cael eu trafod gyda darparwyr gwahanol bob wythnos. Roedd Llwybr Llety Abertawe yn helpu i ddod hyd i dai i'r rhai sy'n gadael gofal; nid oedd un enghraifft wedi bod yn ddiweddar o orfod defnyddio llety gwely a brecwast.
- 3.12. Roedd yr awdurdod yn rhagweithiol wrth gydnabod a gweithredu ar ei rôl ehangach fel rhiant corfforaethol wrth helpu'r rhai sy'n gadael gofal, ac roedd ganddo nifer o fentrau â'r nod o helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith, cynlluniau hyfforddiant ac addysg bellach.
- 3.13. Roedd partneriaethau effeithiol hefyd yn amlwg mewn cydberthnasau gwaith da rhwng gwasanaethau plant a'r gwasanaeth prawf, y gwasanaeth troseddau ieuencid a'r gwasanaeth oedolion, a oedd yn hwyluso cyfnod trosglwyddo effeithiol i bobl ifanc. I'r gwrthwyneb, dywedwyd wrthym hefyd y gall anawsterau sylweddol godi pan fydd pobl ifanc ag anghenion cymorth iechyd meddwl yn cael eu trosglwyddo o'r gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMH) i'r gwasanaeth iechyd meddwl oedolion, lle nad yw'r trefniadau cyfredol yn helpu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y bobl ifanc hynny ag anghenion cymhleth.

Cynllunio Hirdymor

- 3.14. Roedd ymrwymiad clir yn amlwg yn yr awdurdod lleol i hyrwyddo parhad ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal ganddo. Lle y bo'n briodol, roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth unigol drwy broses amlinelliad o gyfraith gyhoeddus, a gwelsom fod y system porth cyfreithiol cadarn ac effeithiol hon yn cael ei deall a'i gwerthfawrogi'n dda. Roedd y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â chychwyn achosion cyn gofal a chynllunio gofal terfynol yn gadarn. Roedd trafodaethau yn y fforwm hwn yn seiliedig ar asesiadau o ansawdd da a dogfennau eraill a oedd yn sail i broses herio a chraffu effeithiol.

- 3.15. Roedd yr awdurdod wedi ceisio gwella elfennau o'i broses gwneud penderfyniadau drwy gynnwys elfennau pwysu a gwrthbwysu newydd yn eu trefniadau panel. Eu nod oedd sicrhau amseroldeb ac addasrwydd cynlluniau unigol ac ystyriwyd llwybrau ar gam digon cynnar, a bod trosolwg priodol yn cael ei roi i Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig tymor hwy a threfniadau Pan Fyddda l'n Barod. Er ei bod yn rhy gynnar i AGC roi sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau panel newydd, siaradodd y staff yn gadarnhaol am eu heffaith gychwynol, a theimlwyd eu bod yn cefnogi ac yn hwyluso.
- 3.16. Gwelsom fod eraill yn deall rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn dda, a bod gan y tîm y gallu a'r awdurdod i fonitro cynnydd unigol a pherfformiad corfforaethol. Gwelsom fod angen mwy o frys weithiau wrth oruchwylio amseroldeb adolygiadau, ac wrth hyrwyddo'r rhan y mae pobl ifanc yn ei chwarae yn y broses hon. Roedd lefel yr uwchgyfeirio, lle mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn codi pryderon yn ffurfiol am blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal, yn rhyfeddol o isel.

Dewis lleoliadau, sefydlogrwydd a llesiant

- 3.17. Mae'r awdurdod wedi gweithio'n galed i gynyddu cyfran y plant a'r bobl ifanc a roddir mewn lleoliadau gofalwyr maeth yn fewnol yn hytrach na chael eu lleoli y tu allan i'r awdurdod lleol. Gwelsom fod ymdrechion yn cael eu gwneud yn gyson i gadw plant gyda'u teuluoedd, os oedd er eu budd gorau i wneud hynny.
- 3.18. Er i ni weld bod sefydlogrwydd lleoliadau unigol yn dda, roedd y dewis o leoliadau a'u hargaeledd yn parhau i fod yn her fawr. Clywsom gan weithwyr cymdeithasol y gall y cyfyngiadau hyn olygu eu bod weithiau'n wynebu'r opsiwn 'lleiaf gwael' o ran dewis, neu leoliadau nad ydynt yn 'hollol iawn' ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Yn anochel, mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i wneud y cynlluniau gorau ar gyfer plant, ac yn lleihau'r opsiynau ar gyfer cynllunio wrth gefn. Gwelsom hefyd y gallai plant fod yn aros cryn dipyn o amser am leoliad hirdymor, sydd o bosibl yn effeithio ar ganlyniadau a'u cyfnod trosglwyddo dilynol. Mae Strategaeth Digonolrwydd Lleoliadau ac un Recriwtio a Chadw wedi cael eu llunio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Mae Abertawe hefyd yn cynnal swydd Swyddog Datblygu Maeth Bae'r Gorllewin a ariennir gan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol ac mae cynllun datblygu rhanbarthol wedi cael ei lunio.
- 3.19. Mae'r angen ehangach i wella'r dewis o ran lleoliadau wedi cael ei gydnabod a chafwyd ymateb i hyn yn rhanbarthol ar ffurf Gwasanaeth Cymorth Lleoliadau Amlasiantaeth (MAPSS). Nod y gwasanaeth yw nodi a chefnogi lleoliadau priodol ar gyfer y plant hynny ag anghenion mwy cymhleth sy'n derbyn gofal. Clywsom y gall ariannu'r lleoliadau hyn ar y cyd gyda rhai asiantaethau partner fod yn broblem.

- 3.20. Roedd gofawyr person cysylltiedig a oedd wedi mynd drwy broses asesu ffurfiol yn gadarnhaol am y gwasanaeth a gawsant. Gwnaeth rhai ymateb yn gadarnhaol i arolygwyr o ran y cymorth a gawsant gan weithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol o'r tîm maethu. Disgrifiwyd y cymorth fel 'fantastic' gan un set o ofalwyr; 'brilliant' gan un arall. Soniwyd yn gadarnhaol hefyd am ansawdd yr hyfforddiant a gynigir ganddynt. Roedd set arall o ofalwyr wrthi'n hyfforddi i fod yn Warcheidwaid Arbennig - ac roeddent yn falch y byddent yn gallu cael gafael o hyd ar yr hyfforddiant sydd ar gael i ofalwyr maeth. Roedd gan ofalwyr cysylltiedig grŵp cymorth wythnosol hefyd, ac roeddent yn gwerthfawrogi hynny. Clywsom nad oedd rhai Gwarcheidwaid Arbennig yn cael yr un lefel o gymorth â gofawyr cysylltiedig.

Cyfranogaeth

- 3.21. Darllenwyd mewn ffeiliau achosion a chlywsom am waith uniongyrchol sy'n cael ei wneud gyda phlant, er enghraifft gan ddefnyddio'r model '3 Thy'. Roedd yn amlwg bod gweithwyr cymdeithasol yn gwrandao'n rheolaidd ar blant ac yn ystyried eu dymuniadau a'u teimladau yn y broses o wneud penderfyniadau. I'r gwrthwyneb, roedd y dogfennau a welsom drwy gronfa ddata PARIS ac mewn manau eraill yn aml yn methu ag adlewyrchu llais y plentyn yn ddigonol. Roedd y templedi a welsom yn cael eu defnyddio yn aml yn cynhyrchu adroddiadau hir a dyblygedig, ac nid oedd yn glir pa mor hygyrch oeddent i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- 3.22. Roedd gan yr awdurdod lleol ymrwymiad clir i hyrwyddo system gyd-gynhyrchu, a oedd yn cael ei hwyluso'n weithredol gan uned gyfranogi annibynnol wedi ei chefnogi gan y bwrdd rhianta corfforaethol. Roedd adborth uniongyrchol gan bobl ifanc fel rhan o'r fenter 'Bright Spots' ehangach wedi ei ddefnyddio'n ddiweddar wrth ail-lunio gwasanaethau yn y ganolfan gyswllt /gwybodaeth. Cynhaliwyd digwyddiadau rheolaidd i ddathlu cyflawniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Roedd plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd rhianta corfforaethol ac yn cyflwyno materion i'r bwrdd yn rheolaidd. Dywedodd aelodau etholedig wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn digwyddiad herio blynyddol, gan alluogi materion sydd o ddiddordeb i blant a phobl ifanc i gael eu codi ac ymateb iddynt yn uniongyrchol.
- 3.23. Cadarnhaodd y plant a'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael cynnig gwasanaeth eirioli a'u bod wedi cael gwybodaeth a chynghor priodol pan ofynnwyd am hynny. Soniwyd am gael cydberthynas gadarnhaol â'u gweithiwr cymdeithasol, a chael llais a barn am eu hasesiad a'r cynlluniau ar gyfer eu gofal a'u cymorth. Caiff y cynnig gweithredol hwn o eiriolaeth ei fonitro drwy'r Swyddogion, ac er y caiff ei gynnig i fwyafrif mawr o'r rhai sydd â hawl iddo, mae'r awdurdod yn ymwybodol bod angen iddo wella ei berfformiad yn y maes hwn ymhellach.

4. Diogelu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Lle bo pobl yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio, neu'n wynebu risg o hynny, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys a gaiff eu cydlynu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau diogelwch neu reoli risg yn llwyddo i leihau risgiau gwirioneddol neu bosibl. Ni chaiff pobl eu gadael mewn amgylcheddau anniogel na pheryglus. Caiff polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn eu deall a'u gwreiddio'n dda ac maent yn helpu i sicrhau ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n dod i'r amlwg. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir ystyried newid perfformiad proffesiynol ac ymddygiad asiantaethau a'u gwella mewn ffordd agored ac adeiladol.

Crynodeb o ganfyddiadau

- 4.1. Roedd yn amlwg o'r trafodaethau a gynhaliwyd gydag aelodau o'r staff, mewn ffeiliau achosion a adolygwyd, a'n gwaith arsylwi ar ymarfer yn yr adran fod yr awdurdod lleol wedi blaenoriaethu'r nod o gadw teuluoedd gyda'i gilydd, ac wedi gweithio'n galed i ystyried pob llwybr priodol cyn edrych ar opsiynau amgen. Roedd ganddi afael da ar ffactorau risg a diamddiffyn lleol, ac roedd wedi cynyddu'r arbenigedd a oedd ar gael drwy benodi un cydlynnydd unigolion coll a chamfanteisio'n rhywiol ar blant penodedig. Roedd y cydlynnydd hwn yn helpu i gadw golwg ar weithgarwch yn ddyddiol, ac roedd wedi hwyluso cydberthnasau gwaith agosach a phroses o gyfnewid gwybodaeth â phartneriaid.
- 4.2. Mae'r dull Arwyddion Diogelwch (SOS) o ddiogelu plant wedi cael ei sefydlu ym mhob rhan o'r awdurdod lleol ers nifer o flynyddoedd ac wedi datblygu dros amser i ddiwallu anghenion teuluoedd yn Abertawe. Mae'n treiddio drwy bob rhan o'r gwasanaethau plant, ac yn rhoi dealltwriaeth glir i staff o fframwaith ymarfer diogelu Cyngor Abertawe. Roedd y staff gwnaethom siarad â nhw - yn enwedig staff newydd gymhwyso - yn gadarnhaol iawn am y model ac yn hoffi'r strwythur yr oedd hyn yn ei roi iddynt. Roedd staff profiadol yn gadarnhaol ar y cyfan am y disgresiwn proffesiynol a oedd ganddynt i ddefnyddio dulliau gweithredu eraill fel y bo'n briodol, yn enwedig gyda phlant hŷn / pobl ifanc.
- 4.3. Mae'r model yn canolbwyntio ar waith uniongyrchol gyda phlant, yr oedd canlyniadau'r gwaith hwnnw yn gymhellol yn ôl yr hyn a welsom - dull pwerus o hwyluso newid o'i ddefnyddio mewn cynadleddau amddiffyn plant. Mae disgwyliad clir gan yr adran mewn cyfarfodydd cyfreithiol a chynadleddau fod gwaith uniongyrchol gyda phlant wedi cael ei wneud, a gwelir hyn mewn asesiadau a dogfennau eraill a gyflwynir yn y llys neu mewn cynhadledd.
- 4.4. Roedd yr asiantaethau partner y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan am y fframwaith Arwyddion Diogelwch gan

ddarparu dull cadarn o ddiogelu. Gwelsom fod defnydd effeithiol yn cael ei wneud o drafodaethau strategaeth cychwynol cydgysylltiedig i lywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â risg, ac ymholiadau amddiffyn plant a47 ar y cyd dilynol. Soniodd yr heddlu a gweithwyr proffesiynol ym meysydd addysg ac iechyd am y parch mawr a oedd ganddynt at yr adran gwasanaethau plant o ran ei hymateb a'i chyfraniad wrth asesu a rheoli risg. Cynhaliwyd cyfarfodydd grwpiau adolygu a chraidd yn unol ag amserlenni disgwyltiedig, a chafwyd presenoldeb da gan bartneriaid.

- 4.5. Mewn rhai achosion, roedd yn amlwg bod angen prosesau diogelu cryfach er mwyn sicrhau bod digon o ffocws ar nodi a rheoli risg. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ystyried materion tymor hwy yn llawnach, ynghyd â'r risgiau uniongyrchol a gaiff eu creu. Mae'r gwaith gwell o ddadansoddi'r ffactorau hyn fel sail ar gyfer rheoli risg yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach.
- 4.6. Gwelsom gyfarfodydd rhwydwaith y teulu yn cael eu defnyddio yn effeithiol i gasglu ac adlewyrchu barn pobl o bwys sy'n gysylltiedig â nodi a lleihau risgiau i blant / pobl ifanc unigol. Mewn un cyfarfod o'r fath, dan arweiniad gweithwyr proffesiynol profiadol sy'n arbenigo mewn SOS, gwelsom ddull ymyrryd medrus iawn, a arweiniodd at ddatblygu cynllun diogelwch effeithiol ar gyfer y plant dan sylw. Sicrhaodd y gweithwyr proffesiynol fod rhwydwaith ehangach y teulu yn cael ei gynnwys yn y cyfarfod ac yn cael ei 'raddoli' ar y diwedd, gan arwain at sefyllfa lle roedd pawb a oedd yn bresennol yn teimlo bod y cynllun yn ymarferol ac yn gyflawnadwy.
- 4.7. Yn y ffeiliau a archwiliwyd gwelsom gofnodion manwl o gyfarfodydd strategaeth gyda chynlluniau gweithredu clir a chyfarwyddyd ar gyfer unrhyw ymchwiliad pellach. Mewn perthynas â diogelu, gwelsom hefyd rywfaint o waith dadansoddi risg manwl yn y datganiad perygl a'r broses o gynllunio diogelwch, gyda chymau nesaf clir iawn a gwybodaeth am yr hyn a fyddai'n digwydd pe na baent yn dilyn y cynllun diogelwch. Mewn rhai achosion a ystyriwyd gennym, codwyd pryderon ynghylch pa mor effeithiol yr oedd yr awdurdod lleol yn ymateb ar y dechrau i bryderon diogelwch.
- 4.8. Gwelsom hefyd nad oedd angen cydbwysedd priodol bob amser rhwng risg a nodwyd a chryfderau ac anghenion unigol a bod tueddiad i'r risgiau hynny a nodwyd gan yr awdurdod i gael eu blaenoriaethu. Roedd hyn yn golygu bod cyfleoedd i adeiladu ar gryfderau unigol wrth nodi camau nesaf yn cael eu colli.
- 4.9. Roedd yr arweinydd diogelu ar gyfer gwasanaethau plant wedi goruchwyllo perfformiad yn ofalus ac roedd yn canolbwyntio ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc. Clywsom nad oedd adroddiadau ar gyfer cynadleddau bob amser ar gael i bob parti ddigon ymlaen llaw cyn cyfarfodydd, ac felly roedd yn bosibl y byddai hyn yn effeithio ar ansawdd y drafodaeth a'r broses ddilynol o wneud penderfyniadau.

Roedd hyn yn anfanteisiol hefyd i deuluoedd nad oeddent wedi gweld adroddiadau ddigon ymlaen llaw cyn y gynhadledd, gan effeithio ar eu gallu i gymryd rhan lawn ac ymateb yn effeithiol.

- 4.10. Roedd y bwrdd diogelu rhanbarthol wedi bod ar waith ers peth amser ac wedi sefydlu partneriaethau strategol agos ar draws y tair ardal awdurdod lleol. Roedd gwasanaethau plant Cyngor Abertawe yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith y bwrdd, ac yn elwa ar y wybodaeth a'r profiad a oedd ar gael yn yr asiantaethau partner perthnasol. Roedd yr awdurdod lleol yn ystyried gwella'r trefniadau hyn drwy ddatblygu bwrdd diogelu lleol, gyda'r nod o fonitro ac atgyfnerthu ymarfer gweithredol lleol nad oedd, ym marn yr awdurdod lleol, wedi ei gefnogi'n ddigonol gan y fframwaith cyfredol.

5. Arwain, Rheoli a Llywodraethu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol ac, ar y cyd, yn sefydlu strategaeth effeithiol i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i bobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir i gynghorwyr, rheolwyr a staff. Caiff gwasanaethau eu harwain yn dda, ceir cyfeiriad clir a chaiff newid ei arwain mewn ffordd gadarn. Mae rolau a chyfrifoldebau ym mhob rhan o'r sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i roi help, gofal a chefnogaeth i bobl a chyflawni ei gyfrifoldebau rianta corfforaethol. Caiff pobl leol eu cynnwys yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o ymarfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Crynodeb o ganfyddiadau

- 5.1. Roedd uchelgais corfforaethol a chefnogaeth i wasanaethau plant Cyngor Abertawe yn amlwg ar bob lefel yn yr awdurdod lleol, ynghyd â dealltwriaeth glir o'i weledigaeth a'i gyfeiriad yn y dyfodol. Nodir agweddau allweddol ar ei strategaeth yn y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2017-21, sy'n cynnwys elfennau sy'n benodol i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, megis y 'Strategaeth Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal'.
- 5.2. Mae gwasanaethau plant wedi elwa ar arweinyddiaeth ymrwymedig a sefydlog; mae nifer o bobl mewn uwch swyddi wedi cael eu cadarnhau yn ddiweddar yn y swyddi hyn, ar ôl cael eu penodi dros dro i ddechrau. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n cynnal adolygiad o rai o'i drefniadau arwain.
- 5.3. Roedd aelodau etholedig yn amlwg yn deall, ac yn ymrwymedig i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i blant. Nodwyd bod creu cyfleoedd prentisiaeth a chyflwyno eithriad i'r dreth gyngor i bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod, yn enghreifftiau diweddar o gymorth tymor hwy. Mae prosesau a phrotocolau ar waith i nodi, cefnogi ac adrodd ar y grwpiau o blant sydd fwyaf 'agored i risg', gan gynnwys y rhai sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt, y rhai sy'n mynd ar goll, sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol a'r plant hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol. Mae trefniadau craffu cadarn ar waith i ddwyn uwch swyddogion yr awdurdod lleol i gyfrif. Fe'u hategir gan ddata dangosfwrdd cynhwysfawr a threfniadau adrodd, sy'n hwyluso gwaith dadansoddi a herio.
- 5.4. Disgrifiwyd y gwaith partneriaeth fel gwaith da ar y cyfan, a nododd yr uwch reolwyr fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn fforwm defnyddiol ar gyfer ymchwilio i themâu strategol cyffredin. Roedd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer nodi a chynllunio i ddiwallu angen yn y dyfodol, gyda threfniadau comisiynu ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth, a nodi unrhyw

angen o bosibl o ran lleiafrifoedd ethnig nas bodlonwyd fel enghreifftiau diweddar.

- 5.5. Mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i adolygu, a gall rheolwyr weld gwybodaeth fyw ar y dangosfwrdd ar bob lefel. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn ymwybodol nad yw'r prosesau sicrwydd ansawdd cyfredol wedi eu hymsefydlu'n ddigonol mewn gwasanaethau plant i'w galluogi i lywio datblygiad ymarfer yn effeithiol. Enghraifft o hyn oedd ansawdd uchel yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd wrth baratoi ar gyfer arolygiad AGC. Gwnaeth hyn ysgogi ystod o wybodaeth o ansawdd uchel am ymarfer, a phe bai gweithdrefnau sicrwydd ansawdd tebyg yn cael eu hymsefydlu, gallent helpu i wella deilliannau i blant a phobl ifanc ymhellach.
- 5.6. Yn ddiweddar, ad-drefnwyd y staff cynllunio gofal â chymorth a phlant ag anabledau a'u rhoi mewn timau a phodiau ar sail ddaeryddol gyda'r nod o ddarparu cymorth mwy effeithiol i weithwyr cymdeithasol, gan helpu i osgoi llithr, a hwyluso cam i lawr cyflymach at wasanaethau eraill. Roedd rôl a swyddogaeth therapyddion yn y timau hyn yn y dyfodol yn cael eu hystyried. Er ei bod yn rhy gynnar i werthuso effaith hyn ar y cam hwn, roedd y newid wedi cael ei arwain yn dda ac wedi cael ei dderbyn yn dda gan y staff, a groesawodd y broses o gyd-leoli timau, a dywedwyd wrthym fod gwaith ymgynghori helaeth wedi cael ei gynnal cyn i hyn gael ei roi ar waith. Clywsom fod y staff yn gwerthfawrogi'r lefel gynyddol o gymorth a oedd ar gael o'r rolau arwain proffesiynol newydd, ac roeddent yn teimlo bod y timau llai yn rhoi mwy o gysondeb i deuluoedd gan fod mwy o weithwyr yn dod yn gyfarwydd â phob un o'r achosion. Mae rôl cymorth busnes newydd hefyd wedi cael ei sefydlu, gan roi'r gallu ychwanegol penodedig i bob tîm i'w helpu i reoli data perfformiad a swyddogaethau sicrwydd ansawdd. Gwnaeth y ganolfan berfformio sy'n cyd-fynd â'r strwythur newydd hwn greu cyfleoedd i wasanaethau plant wella'r trefniadau cyfredol o ran trosolwg a sicrwydd ansawdd.
- 5.7. Roedd egni'r rheolwyr a'r ffocws ar weithredu strwythurau newydd yn golygu nad oeddent wedi manteisio eto ar y cyfleoedd i ymgorffori egwyddorion y Ddeddf yn llawn. Cydnabu uwch reolwyr mewn gwasanaethau plant fod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y sgwrs 'beth sy'n bwysig' yn cael ei chynnwys yn eu hymwneud â phlant a theuluoedd yn llwyr. Ochr yn ochr â hyn, mae angen sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y dogfennau asesu, cynllunio gofal a dogfennau eraill a ddefnyddir fel sail ar gyfer casglu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau.
- 5.8. Mae gan wasanaethau plant Cyngor Abertawe weithlu cymharol sefydlog a chadarn sy'n ymrwymedig i ganolbwyntio ar y plentyn, ac sy'n frwd dros gadw teuluoedd gyda'i gilydd a sicrhau deilliannau da i blant. Dywedodd staff wrthym yn gyson eu bod yn mwynhau gweithio i'r awdurdod lleol, lle roedd diwylliant o gymorth yr oeddent yn ei werthfawrogi. Gwerthfawrogyd y ffaith ei bod yn hawdd cael gafael ar

y Prif Swyddogion a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a'u bod yn cael eu gweld. Cafodd arfer da unigol ei gydnabod gan uwch reolwyr a gwelsom enghreifftiau o negeseuon e-bost yn cael eu hanfon at aelodau unigol o staff gan Bennaeth y Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr yn adlewyrchu hyn.

- 5.9. Dywedodd y rheolwyr wrthym nad oedd unrhyw staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio ers peth amser, a'u bod yn 'gor-recriwtio' pobl i swyddi gwag er mwyn sicrhau staff llanw. Fodd bynnag, codwyd lefelau absenoldeb diweddar oherwydd salwch ac absenoldeb mamolaeth fel materion a oedd yn rhoi pwysau sylweddol o ran llwyth gwaith ar y staff y gwnaethom siarad â nhw mewn rhai timau.
- 5.10. Nodwyd bod y gallu i gael gafael ar hyfforddiant yn dda, a chafodd hyn ei ymestyn y tu hwnt i'r agweddau 'craidd' ar hyfforddiant arferol, i gynnwys y rhai sydd ag arbenigedd / diddordeb proffesiynol penodol. Croesawodd staff y cyfle drwy'r dull goruchwylio i adolygu achosion unigol, er bod rhai wedi nodi y gallai hyn weithiau gael ei lywio'n ormodol gan dasgau. Nododd archwiliad mewnol a gynhaliwyd cyn ein harolygiad, nad oedd dull goruchwylio staff bob amser yn digwydd yn ddigon aml a bod angen rhesymeg gliriach ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn rhai achosion. Er i'n hadolygiad o sampl o ffeiliau goruchwylio ganfod bod y rhain yn adlewyrchu arfer da ar y cyfan, roedd ansawdd y cofnodion ac amseroldeb y sesiynau goruchwylio yn anghyson. Cymeradwywn gasgliad yr awdurdod lleol ei hun fod angen diweddarau ac adolygu'r dull gweithredu cyfredol o ran polisi ac ymarfer goruchwylio, ynghyd â safoni fformatau ar draws y gwasanaeth.
- 5.11. Gwelsom fod cwynion yn cael eu rheoli'n dda a bod yr ymateb iddynt yn effeithiol, ac eithrio'r rhai a oedd yn ymwneud yn rhannol â gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan asiantaethau eraill, ac a oedd felly y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol.

Methodoleg

Gwaith maes

Cynhaliwyd 9 diwrnod o weithgaredd gwaith maes.

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w olrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 69 o ffeiliau; o'r rhain, cynhaliwyd cyfweiliadau olrhain dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau teulu yn achos 20 ohonynt a chynhaliwyd grŵp ffocws olrhain mewn perthynas â 4 ohonynt a oedd yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth.

Gwnaethom gyfwrdd â phlant, rhieni, gofalwyr a pherthnasau.

Gwnaethom gyfwrdd ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau, uwch swyddogion, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr.

Gwnaethom gyfwrdd ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o 8 ffeil goruchwylio staff.

Gwnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cwynion a wnaed am wasanaethau plant.

Y Tîm Arolygu

Prif Arolygydd: Duncan Marshall; Arolygwyr Cynorthwyol: Sharon Eastlake, Vicky Poole, Sara Hubbard, Katy Young, Leigh Thorne a Pam Lonergan.

Diolchiadau

Hoffai AGC ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr ac aelodau a sefydliadau partner a wnaeth roi o'u hamser a chyfrannu at yr arolygiad hwn.